Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

Canllaw ar ddatblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth (ISP)

I sefydliadau sydd ynghlwm ag amddiffyn, diogelwch, iechyd, addysg a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru

(gan gynnwys sefydliadau yn y sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector)

Fersiwn 5 (Diweddariad 2026)

Cynnwys

Adran 1 – Y Broses Ddatblygu 2

Cyflwyniad 2
Pethau i'w hystyried cyn datblygu ISP 2
Paratoi i ddatblygu ISP 3
Datblygu ISP – rolau, cyfrifoldebau a'r broses 4

Adran 2 – Llenwi'r templed ISP 5

Cyflwyniad 5
Rhestr wirio cyn sicrhau ansawdd 5
Tudalen deitl 6

Adran 1 – Cyflwyniad i'r ISP hwn 6
Adran 2 – Y sefydliadau partner rhannu gwybodaeth 7
Adran 3 – Rhwymedigaethau penodol y sefydliad / ymarferydd 7
Adran 4 – Pwerau deddfwriaethol / statudol 7
Adran 5 - Manylion y wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu 8
Adran 6 – Hawliau testunau data 8
Adran 7 – Diogelwch gwybodaeth 9
Adran 8 - Adolygu, Torri'r Rheolau a Therfynu'r Cytundeb hwn 9

Atodiad A – Geirfa Termau 10
Atodiad B – Tabl Cyfeirio Gwybodaeth 10
Atodiad C – Llofnodion Sefydliadau Partner 11

Atodiad A – Proses Ddatblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth (ISP) 12

Adran 1 – Y Broses Ddatblygu

Cyflwyniad

1.1 Paratowyd yr arweiniad hwn i gynorthwyo datblygiad **Protocolau Rhannu Gwybodaeth (ISP)** dan y fframwaith cenedlaethol a ddarperir gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio'n benodol at y templed ISP sydd ar gael ar wefan WASPI - www.waspi.llyw.cymru

1.2 Rhoddir yr egwyddorion yn y Cytundeb ar waith trwy ddull cydweithredol o ddatblygu cytundebau gan ddefnyddio templedi WASPI. Mae arweiniad ar wahân ar gael ar gyfer mathau eraill o gytundebau WASPI.

1.3 Mae ISP yn helpu sefydliadau i ddangos sut maen nhw'n bodloni anghenion deddfwriaeth diogelu data; yn benodol, gofynion 'atebolrwydd' a 'diogelu data o'r cychwyn ac fel anghenraid' a amlinellir yn y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU).

1.4 Mae ISP yn helpu sefydliadau i amlinellu, mewn ffordd gyson a chlir, manylion y wybodaeth bersonol a rennir at ddibenion penodol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Crëwyd y templed a'r arweiniad hwn gan randdeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau, a gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

1.5 Nid yw ISPs yn disodli diwylliant o gydweithio ac ymgynghori, sy'n rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol. Felly, dylid paratoi ISP â mewnbwn gan yr holl bartneriaid, ac ni ddylid ei ddrafftio ar wahân. Er mwyn pasio'r broses sicrhau ansawdd, rhaid rhoi tystiolaeth ar gyfer cydweithio ac ymgynghori.

Pethau i'w hystyried cyn datblygu ISP

1.6 Nid oes angen ISP bob amser. Dylech gyfeirio at wefan WASPI am arweiniad ar bryd i ddefnyddio ISP a phryd i ddefnyddio cytundeb neu gontract o fath gwahanol. Cyn dechrau datblygu ISP, dylech allu ateb 'ie' i'r cwestiynau canlynol:

Cwestiwn / ystyriaeth	Rhagor o arweiniad / nodiadau
Ydych chi wedi ymgynghori â'ch Swyddog Diogelu Data, yr Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth neu gyfwerth ynghylch a oes angen ISP?	**Cyn dechrau datblygu ISP, rhaid i chi ofyn am gyngor gan unigolyn cymwys a/neu brofiadol.**
Cyn rhannu gwybodaeth bersonol, ydych chi wedi ystyried a oes angen cwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data/Asesiad Effaith Preifatrwydd, yn ôl yr angen?	Arweiniad y Comisiynydd Gwybodaeth ar yr Asesiad Effaith Diogelu Data ac Erthygl 35 GDPR y DU. Dylid trafod hyn â'ch adran Llywodraethu Gwybodaeth neu'r Swyddog Diogelu Data.
A yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu'n eich galluogi i adnabod yr unigolion?	Os nad yw'r data a rennir yn eich galluogi i wybod pwy yw'r unigolion, nid oes angen ISP.
A yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu'n gyfartal; hynny yw, a yw'n llifo rhwng	Dylid datblygu ISP i ddogfennu arferion sy'n cynnwys **rhannu rheolaidd, cyfartal**

sefydliadau neu a yw pob sefydliad yn cyfrannu darnau penodol o wybodaeth bersonol?	(hynny yw, mae'r wybodaeth yn llifo yn ôl ac ymlaen rhwng sefydliadau) y wybodaeth bersonol rhwng Rheolyddion Data. Bwriedir i Gytundebau Datgelu Data gael eu defnyddio pan fydd data personol yn cael ei **ddatgelu** (h.y. ei basio un ffordd) o un Rheolydd Data i'r llall am reswm penodol. Mae arweiniad a thempledi ar wahân ar gael ar wefan WASPI i helpu â phrosesau datblygu DDA. Dylech drafod hyn â'ch adran Llywodraethu Gwybodaeth neu'r Swyddog Diogelu Data.
A yw pob partner yr ISP yn rheolyddion data, neu a oes unrhyw broseswyr data ynghlwm?	Rhaid i weithgareddau diogelu data gael eu hategu gan gytundeb sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data cyfredol.

1.7 Mae Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA), sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel Asesiadau Effaith Preifatrwydd, yn ofyniad cyfreithiol mewn rhai amgylchiadau, a dylid eu cynnal cyn rhannu. Mae DPIA yn eich galluogi i amlygu risgiau a mesurau lliniaru allweddol (gan gynnwys a oes angen ISP) i gael eu hamlygu.

1.8 Gofynnwch am gyngor os nad ydych chi'n siŵr p'un a oes angen ISP; gall hyn fod gan eich Swyddog Diogelu Data neu berson cymwys addas arall yn eich sefydliad. Gall tîm canolog WASPI ddarparu cyngor cyffredinol.

1.9 Dylid datblygu ISP i ddogfennu arferion sy'n cynnwys **rhannu rheolaidd, cyfartal** (hynny yw, mae'r wybodaeth yn llifo yn ôl ac ymlaen rhwng sefydliadau) y wybodaeth bersonol rhwng Rheolyddion Data. Bwriedir i Gytundebau Datgelu Data (DDA) gael eu defnyddio pan fydd data personol yn cael ei **ddatgelu** (hynny yw, ei basio un ffordd) o un Rheolydd Data i'r llall am reswm penodol. Ni fwriedir i DDAs gael eu defnyddio mewn achosion lle bydd y datgeliad o Reolydd Data i Brosesydd Data, ac nid ydynt yn disodli'r angen am gontractau priodol. Mae arweiniad a thempledi ar wahân ar gael ar wefan WASPI i helpu â phrosesau datblygu DDA.

1.10 Pan benderfynwyd ei fod yn debygol y bydd angen ISP, dylid ystyried amlygu'r sefydliadau partner rhannu gwybodaeth. **Rhaid** datblygu ISP ar y cyd.

Paratoi i ddatblygu ISP

1.11 Dylai'r holl bartneriaid gydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn y Cytundeb. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i ddull cyson o rannu gwybodaeth bersonol. Nid yw llofnodi'r Cytundeb yn rhagofyniad wrth rannu gwybodaeth, ond mae'n cael ei argymell yn gryf. Mae'r 'Datganiad Derbyn a Chyfranogi' ar gael ar wefan WASPI.

1.12 Cyn dechrau datblygu ISP, dylai awdur/perchennog yr ISP adolygu Cofrestr ISP ar wefan WASPI i bennu p'un a oes ISPs tebyg wedi'u sicrhau neu ISPs sy'n cael eu datblygu. Gall ISPs presennol ddarparu sail ddefnyddiol, ond ni ddylid eu copïo heb ystyried yn llawn pa mor berthnasol ydyn nhw a'u haddasu yn ôl yr angen.

1.13 Dylid sefydlu cysylltiadau perthnasol mewn sefydliadau partner, a chytuno p'un a oes angen ISP. Dylid cytuno ar rolau a chyfrifoldebau yn ystod y broses ddatblygu ISP yn y camau cynnar; e.e. a fydd cynrychiolwyr y partneriaid yn cwrdd i drafod yr ISP, a fydd cymysgedd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd ar-lein, neu a fydd yr ISP yn cael ei ddatblygu gan un sefydliad a darparu adborth drwy e-bost.

Datblygu ISP – rolau, cyfrifoldebau a'r broses

1.14 Bydd un sefydliad – **y prif sefydliad** – fel arfer yn cydlynu datblygiad ISP. Fel arfer, mae'r prif sefydliad yn gorff mawr yn y sector cyhoeddus, ond nid dyma'r achos bob tro, ac nid oes rhaid iddo fod.

1.15 Bydd y prif sefydliad yn penodi **awdur** i reoli'r broses ddatblygu a drafftio'r ISP. Efallai caiff yr awdur ei gynorthwyo gan gyfranwyr / adolygwyr eraill yn ôl yr angen.

1.16 Yn ogystal â drafftio'r ISP, mae'r awdur yn gyfrifol am sicrhau bod yr ISP yn cael ei lofnodi gan bob sefydliad ar ôl cael ei sicrhau gan y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol priodol.

1.17 Dylai sefydliadau partner enwebu **cyswllt/perchennog** yr ISP i gyfrannu at y broses ddatblygu ac i sicrhau bod yr ISPs yn parhau i fod yn berthnasol i'r gwasanaethau maent yn eu cynorthwyo.

1.18 Mae'n bwysig bod awdur yr ISP a chysylltiadau'r sefydliad yn ymgynghori â'r **tîm Llywodraethu Gwybodaeth / Swyddog Diogelu Data** (neu gyfwerth) a all ddarparu cyngor penodol ynghylch a oes angen ISP, dehongli deddfwriaeth diogelu data a sut i fodloni anghenion penodol, fel a oes angen rhoi gwybod i unigolion sut defnyddir eu gwybodaeth bersonol.

1.19 Gall y **tîm WASPI** canolog, sydd wedi'i leoli yng Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ddarparu Cyngor ynghylch fframwaith WASPI, gan gynnwys y broses ddatblygu, defnyddio templedi a'r broses sicrhau ansawdd. Dylid cyflwyno drafftiau terfynol yr ISPs, gyda'r rhestr wirio cyn sicrhau ansawdd (gweler templed yr ISP), i'r tîm WASPI (waspiservice@wales.nhs.uk) a fydd yn cynnal gwiriad dechreuol cyn cysylltu â'r grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol perthnasol.

1.20 Mae **grwpiau sicrhau ansawdd rhanbarthol** yn gyfrifol am sicrhau ansawdd ISPs a ddatblygwyd yn eu hardal/rhanbarth. Nodau'r grwpiau yw cynnal uniondeb fframwaith WASPI, sicrhau bod ISPs yn addas i'w rhannu fel enghreifftiau o arfer da, ac i gadarnhau bod y risgiau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm â rhannu gwybodaeth wedi cael eu hasesu a'u lliniaru mewn ffordd briodol. Bydd y grwpiau sicrhau ansawdd yn cadarnhau y bydd ISPs enghreifftiol yn addas i gael eu llofnodi gan sefydliadau a'u cyhoeddi fel enghreifftiau o arfer da. Ni fydd grwpiau sicrhau ansawdd yn darparu cyngor cyfreithiol – mae sefydliadau partner yn gyfrifol am chwilio am eu cyngor cyfreithiol a'u sicrwydd eu hunain. Bwriad grwpiau sicrhau ansawdd yw sicrhau arfer da, nid rhoi cyngor cyfreithiol. Neu, byddant yn darparu adborth i'r awdur ar y camau angenrheidiol.

Adran 2 – Llenwi'r templed ISP

Cyflwyniad

2.1 Mae'r adran hon yn trafod llenwi'r templed ISP, ac yn darparu arweiniad ar lenwi'r adrannau penodol.

2.2 Nod yr ISPs yw amlygu a dogfennu:

- cwmpas a diben(ion) penodol rhannu gwybodaeth bersonol;
- y sefydliadau partner sydd ynghlwm;
- y sail gyfreithiol;
- y wybodaeth i'w rhannu;
- sut bodlonir hawliau defnyddwyr y gwasanaeth; a'r
- dulliau a'r rheolyddion trosglwyddo gwybodaeth ddiogel i'w defnyddio.

2.3 Mae'r templed ISP WASPI, sydd ar gael ar wefan WASPI, wedi cael ei lenwi o flaen llaw gyda thestun sylfaenol, ac mae'n dangos yn glir ym mhle y dylid rhoi gwybodaeth ychwanegol. **Ni ddylid newid y fformat a'r geiriau sylfaenol heb ymgynghori gyda'ch tîm llywodraethu gwybodaeth a'r tîm WASPI canolog lle bydd angen.**

Rhestr wirio cyn sicrhau ansawdd

2.4 Mae tudalen gyntaf y templed ISP yn rhestr wirio cyn sicrhau ansawdd, sy'n rhoi trosolwg o fanylion yr ISP. Mae cwblhau'r rhestr wirio yn darparu sicrwydd bod ystyriaethau allweddol wedi'u hystyried yn ystod datblygiad yr ISP. Dylid ei chwblhau pan gytunir ar y drafft terfynol, ac mae'n barod i'w chyflwyno ar gyfer sicrhau ansawdd.

2.5 Disgwylir i awdur yr ISP gwblhau'r rhestr wirio. Ni dderbynnir ISP ar gyfer sicrhau ansawdd heb restr wirio gyflawn.

2.6 Bydd tîm WASPI yn dileu'r rhestr wirio cyn cyhoeddi, ond bydd yn cadw copi electronig ohoni fel rhan o lwybr archwilio datblygiad yr ISP.

2.7 **Adran 1 –** nodwch 'deitl yr ISP'. Dylai hwn fod yn enw priodol sy'n adlewyrchu swyddogaeth y gwasanaeth / menter / prosiect / rhaglen, a'r ardal ddaearyddol berthnasol, er enghraifft: 'Rhaglen Dechrau'n Deg – Torfaen'. Dylid ailadrodd hyn ar dudalen glawr yr ISP.

2.8 **Adran 2 –** darparwch enw, sefydliad a manylion cyswllt yr unigolyn/unigolion sy'n cwblhau'r ISP – yr 'awdur'. Bydd darparu'r manylion hyn yn galluogi tîm WASPI a/neu'r grŵp sicrhau ansawdd i gysylltu â'r awdur ag unrhyw ymholiadau.

2.9 **Adran 3 –** darparwch enw, sefydliad a manylion cyswllt yr arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth a ymgynghorwyd yn ystod y broses ddatblygu. Mae hyn yn rhoi sicrwydd y gofynnwyd am gyngor gan unigolyn cymwys a/neu brofiadol priodol.

2.10 **Adran 4** – ticiwch y blwch perthnasol i ddangos p'un a gynhaliwyd Asesiad Effaith Diogelu Data / Asesiad Effaith Preifatrwydd (DPIA / PIA). Mae cynnal DPIA/PIA yn ofyniad statudol mewn rhai amgylchiadau (Erthygl 35 GDPR y DU). Os na

chwblhawyd DPIA, defnyddiwch yr adran hon i esbonio pam nad oedd yn angenrheidiol.

2.11 **Adran 5** – darparwch enw a sefydliad y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y broses ddatblygu. Mae hyn yn rhoi sicrwydd y bu lefel briodol o ymgynghori. Dylai'r sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy sicrhau bod eu Swyddog Diogelu Data yn ymwybodol o ddatblygiad yr ISP.

2.12 **Adran 6** – dylai Awdur yr ISP egluro'r canlynol:

- Yn adran 6(a), rhestru sawl sefydliad sy'n bartneriaid i'r ISP.
- Yn adran 6(b), bod adran 2 yr ISP wedi cael ei chroesgyfeirio â'r Tabl Cyfeirio Gwybodaeth. Mae hyn wedi cael ei gynnwys yn seiliedig ar brofiad sy'n dangos bod yr adran hon yn anghyson yn aml.
- Yn adran 6(c), p'un a oes unrhyw sefydliadau partner nad ydynt wedi llofnodi'r Cytundeb o hyd. Efallai y bydd tîm WASPI yn cysylltu â nhw gyda rhagor o wybodaeth am fanteision WASPI.

2.13 **Adran 7** – ni ddylid gwneud newidiadau i'r templed safonol y cytunwyd arno heb ymgynghori â thîm WASPI o flaen llaw. Os cytunwyd ar newidiadau, dylid eu hamlinellu yn yr adran hon.

2.14 **Adran 8** – Cadarnhewch fod copïau o'r wybodaeth brosesu teg wedi cael eu cyflwyno gyda'r ISP. Sicrhewch y cyfeirir at y dogfennau hyn yn y tabl yn Adran 6 yr ISP.

Tudalen deitl

2.15 Darparwch deitl yr ISP yn y blwch 'rhowch y manylion yma' cyntaf. Dylai adlewyrchu swyddogaeth y gwasanaeth / menter / prosiect / rhaglen, a'r ardal ddaearyddol berthnasol, er enghraifft: Rhaglen Dechrau'n Deg - Torfaen. Dylai hyn fod yn gyson ag adran 1 y rhestr wirio cyn sicrhau ansawdd.

2.16 Dylai awdur yr ISP amlinellu a yw'r ISP sy'n cael ei ddatblygu yn ISP newydd neu a yw'n adolygiad o ISP presennol sydd ar gael trwy'r Gofrestr ISP ar-lein.

2.17 Mae'r dudalen glawr hefyd yn cynnwys dyddiad sicrhau'r ISP ac mae'n enwi'r grŵp Sicrhau Ansawdd perthnasol. Bydd y tîm WASPI yn ei gwblhau pan fydd yr ISP wedi cael ei sicrhau. Mae manylion y grwpiau sicrhau ansawdd, gan gynnwys manylion cyswllt, ar gael ar wefan WASPI neu gan dîm WASPI.

Adran 1 – Cyflwyniad i'r ISP hwn

2.18 Mae'r adran hon wedi cael ei llenwi o flaen llaw gyda thestun sylfaenol; fodd bynnag, rhaid ychwanegu'r manylion canlynol, i ehangu ar gwmpas a phwrpas yr ISP penodol.

2.19 Ym mharagraff 1.3 - rhowch enw'r gwasanaeth / y fenter / y prosiect / y rhaglen benodol a'r ardal ddaearyddol dan sylw, er enghraifft: 'Y Rhaglen Dechrau'n Deg - Torfaen'. Dylai hyn fod yn gyson â'r dudalen deitl a'r rhestr wirio cyn sicrhau ansawdd.

2.20 Ym mharagraff **1.4** esboniwch bwrpas rhannu gwybodaeth, swyddogaeth y gwasanaeth, a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Gellir cymryd hyn o'ch Asesiad

Effaith Diogelu Data. Dylid ysgrifennu'r esboniad hwn mewn ffordd sy'n galluogi rhywun heb unrhyw wybodaeth am y swyddogaeth neu'r gwasanaeth i ddeall ei ystyr a pham mae angen rhannu'r wybodaeth.

Adran 2 – Y sefydliadau partner rhannu gwybodaeth

2.21 Mae pob sefydliad – p'un a ydynt yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, y sector preifat neu sector arall – sy'n cymryd rhan mewn gwasanaeth sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth bersonol yn dod yn bartner rhannu gwybodaeth.

2.22 Rheolyddion data yn unig ddylai gael eu rhestru mewn ISP. Mae angen trafod y trefniadau prosesu data mewn contract.

2.23 Yn y tabl ym mharagraff **2.1,** rhestrwch:

- Y sefydliadau sydd ynghlwm â rhannu gwybodaeth bersonol sydd wedi'u cynorthwyo gan yr ISP hwn.
- Manylion y Perchennog / Pwynt Cyswllt (dylech roi ei swydd, nid ei enw).
- Yr Adrannau / Is-adrannau / Timau sy'n cymryd rhan fel arfer.

2.24 Yn dilyn sicrhau ansawdd yr ISP, gall sefydliadau ddefnyddio Atodiad C i sicrhau bod pob sefydliad partner wedi llofnodi'r ISP. Pan fo awdur yr ISP wedi ychwanegu atodiadau ychwanegol, dylid gwirio a diweddaru cyfeiriadau at atodiadau trwy'r ISP.

Adran 3 – Rhwymedigaethau penodol y sefydliad / ymarferydd

2.25 Mae'r rhan hon o'r templed ISP wedi'i phoblogi ymlaen llaw gyda thestun penodol felly nid oes angen poblogi pellach. Fodd bynnag, rhaid i bartneriaid sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Adran 4 – Pwerau deddfwriaethol / statudol

2.26 Mae rhannau helaeth o'r adran hon yn y templed wedi'u llenwi o flaen llaw, ond mae angen llenwi'r tablau.

2.27 Mae'n hanfodol nodi sail gyfreithlon briodol ar gyfer rhannu gwybodaeth. Heb sail gyfreithlon glir, ni all sefydliadau ddangos eu bod yn cwrdd ag egwyddor gyntaf GDPR y DU (Erthygl 5); sef 'cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder'.

2.28 Gan fod potensial gan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018 (DDD 2018) i ddarparu'r sail gyfreithiol berthnasol ar gyfer rhannu gwybodaeth, mae'n bwysig gofyn am gyngor priodol cyn drafftio ISP. Dylid gosod sail gyfreithiol cyn dechrau unrhyw drefniadau sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. **Nid yw hyn yn atal gwybodaeth rhag cael ei rhannu mewn 'sefyllfaoedd argyfwng' nac yn disodli unrhyw weithdrefnau a phrosesau diogelu neu eraill a sefydlwyd er mwyn sicrhau y gellir gofalu am unigolion, eu trin neu eu hamddiffyn mewn ffordd arall.**

2.29 Mae adran 'Sut i ddefnyddio'r tablau' wedi'i chynnwys i gynorthwyo dealltwriaeth o'r adran hon. Dylid darllen 'Sut i ddefnyddio'r tablau' cyn ceisio llenwi'r adran hon. Os erys ymholiadau ar yr adran hon ar ôl darllen hwn a'r canllaw hwn, dylech gysylltu â'ch tîm Llywodraethu Gwybodaeth / Swyddog Diogelu Data i gael cyngor.

2.30 **Y tablau** – mae'r seiliau cyfreithiol ar gyfer rhannu wedi cael eu symleiddio a'u haralleirio at ddibenion y templed. Bydd y manylion llawn ar gael yn Erthyglau 6 a 9 GDPR y DU a Phennod 2 rhan 2 DDD 2018. Os bydd yn cael ei rannu at ddibenion gorfodi'r gyfraith, mae rhagor o fanylion ar gael yn Erthygl 10 GDPR y DU a Rhan 3 DDD 2018. Mae arweiniad ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2.31 Yn nodweddiadol, dim ond un sail gyfreithlon o bob tabl y dylid ei dewis ond gall fod achosion lle mae cyfnewidiadau ar wahân o fewn yr un gwasanaeth yn dibynnu ar wahanol seiliau cyfreithiol. Dylid darparu nodyn esboniadol i egluro lle mae gwahanol bartneriaid yn dibynnu ar wahanol seiliau cyfreithlon. Nid oes angen rhestru'r holl bartneriaid, e.e. 'Mae Awdurdodau Lleol yn dibynnu ar Erthygl xx, mae'r heddlu'n dibynnu ar Erthygl xx'.

2.32 Mae adrannau nodiadau'r tablau yn esbonio'r wybodaeth ychwanegol sydd i'w darparu, sy'n amrywio yn dibynnu ar y sail gyfreithlon berthnasol. Pan ofynnir i chi egluro neu ddarparu manylion, dylid cwblhau hyn.

2.33 Mae rhai seiliau cyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol bod Dogfen Bolisi Briodol (APD) ar waith ar gyfer pob sefydliad sy'n ymwneud â'r ISP cyn rhannu data. Pan fo angen APD, cyfeirir at hyn yn nodiadau adran 4 o'r templed ISP. Nid oes angen cyflwyno copi o APD gyda'r ISP. Mae gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu arweiniad pellach ar hyn gan gynnwys templed i'w ddefnyddio.

Adran 5 - Manylion y wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu

2.34 Dim ond y tabl sy'n nodi'r dynodwyr personol i'w defnyddio sydd angen ei gwblhau. Ni ddylid cymysgu hyn â manylion yr wybodaeth bersonol a rennir, a nodir yn y Tabl Cyfeirio Gwybodaeth.

2.35 Dylai'r tabl amlinellu sut bydd testunau'r data (defnyddwyr gwasanaethau) yn cael eu hamlygu fel bod sefydliadau partner yn gwybod eu bod yn ymdrin â'r un unigolyn. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth sy'n dangos pwy yw unigolion yn y fan hon nac mewn unrhyw adran yn yr ISP. Hefyd, dylech fod yn ymwybodol, er mwyn cydymffurfio ag egwyddor 'lleihau data', rhaid cyfyngu'r wybodaeth bersonol a rennir i'r hyn sydd ei angen ar gyfer y diben penodol (datgelu pwy yw'r unigolyn). Fel arfer, mae enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhif cyfeirnod penodol yn ddigon i ddatgelu pwy yw'r unigolyn, ond dylai partneriaid yr ISP gytuno ar yr hyn sy'n briodol.

Adran 6 – Hawliau testunau data

2.36 Mae caniatáu i destunau data arfer eu hawliau yn rhan bwysig o gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

2.37 Mae rhan helaeth o'r adran hon wedi'i llenwi o flaen llaw, ond ceir ffocws ar yr 'hawl i gael gwybod' (Erthygl 12-14 GDPR y DU), sy'n elfen graidd o egwyddor 'cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder' yn ei rhinwedd ei hun.

2.38 Nid yw deddfwriaeth diogelu data'n pennu pa gyfrwng y dylid ei ddefnyddio i roi gwybod, ond mae'n nodi beth ddylid ei gynnwys a phryd ddylid ei ddarparu.

2.39 O ystyried arwyddocâd yr hawl hwn yn y ddeddfwriaeth, mae'r tabl yn yr adran hon yn gofyn i bob sefydliad partner nodi sut mae testunau data'n cael gwybod am sut ddefnyddir eu gwybodaeth. Rhaid penderfynu ar ddulliau o roi gwybod i destunau

data cyn i wasanaeth gael ei lansio, a rhaid llenwi'r tabl â gwybodaeth benodol, gan gynnwys teitl y ddogfen a'r dull o roi gwybodaeth i destunau data.

2.40 Anogir sefydliadau i ychwanegu fersiynau electronig o unrhyw daflenni a ffurflenni sydd ar gael yn yr atodiadau.

2.41 Mae rhagor o wybodaeth am hawliau unigol ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Adran 7 – Diogelwch gwybodaeth

2.42 Mae'r adran hon yn nhempled yr ISP wedi cael ei lenwi o flaen llaw gyda thestun safonol, felly nid oes angen ei lenwi ymhellach. Fodd bynnag, rhaid i bartneriaid sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Adran 8 - Adolygu, Torri'r Rheolau a Therfynu'r Cytundeb hwn

2.43 Dylid adolygu ISPs bob dwy flynedd neu'n gynt os gwneir newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ISPs yn parhau i fod yn berthnasol.

2.44 Enghreifftiau o sefyllfaoedd sy'n arwain at adolygiad:

- Mae 2 flynedd wedi bod ers sicrhau'r ISP.
- Newidiadau sylweddol i gwmpas y gwasanaeth, sy'n arwain at gynnwys nifer o sefydliadau partner newydd.
- Newidiadau sylweddol i gwmpas y gwasanaeth, sy'n amrywio faint o wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu, neu'r math o wybodaeth.
- Tor-data sylweddol (hynny yw, y dylid adrodd arno).
- Newid i'r sail gyfreithiol dros rannu gwybodaeth.

2.45 Enghreifftiau o sefyllfaoedd nad ydynt o reidrwydd yn arwain at adolygiad:

- Mae sefydliad partner newydd yn dod yn rhan o gyflenwi gwasanaethau. Os bydd hyn yn arwain at unrhyw un o'r sefyllfaoedd a amlygir uchod, dylid ystyried adolygiad. Mae'n bwysig cadw archwiliad o'r cyfathrebiadau sy'n cadarnhau bod partneriaid newydd yn ymwybodol o delerau'r ISP, ac i gwblhau diwydrwydd dyladwy ar ddiogelwch data personol, ond gellir ychwanegu sefydliadau newydd fel rhan o'r broses adolygu rheolaidd.
- Mae'r awdur neu unrhyw gyswllt sefydliadol yn gadael y swydd. Ni fydd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd yr ISP. Fodd bynnag, os bydd awdur yr ISP yn gadael ei swydd, dylai'r sefydliad arweiniol sicrhau bod rhywun arall yn ymgymryd â'r rôl hon i sicrhau bod y cytundeb yn cael ei ddiweddaru.

2.46 Pan fydd sefydliad wedi torri telerau cytundeb, dylid rhoi gwybod i'r Perchnogion / Pwyntiau Cyswllt yn Adran 2 am hyn. Dylai pob sefydliad sy'n rhan o'r cytundeb gael ei hysbysu a dylai drafod y goblygiadau a'r camau nesaf. Gall hyn arwain at hepgor y sefydliad o'r cytundeb neu at y rhannu gwybodaeth a nodir yn y cytundeb hwn ddod i ben.

2.47 Pan ddaw rhannu gwybodaeth i ben, dylai'r Partneriaid sy'n rhan o'r cytundeb gytuno ar y rolau a'r cyfrifoldebau, gan gynnwys a fydd yr wybodaeth yn cael ei dileu neu ei

dychwelyd. Rhowch wybod i'r Tîm WASPI Canolog a fydd yn diweddaru'r Gofrestr ISP.

Atodiad A – Geirfa Termau

2.48 Mae geirfa'n diffinio geiriau cyffredin. Gallwch ychwanegu at y rhestr os oes angen, ond ni ddylid dileu eitemau fel arfer.

Atodiad B – Tabl Cyfeirio Gwybodaeth

2.49 Mae'r adran hon yn darparu arweiniad ar lenwi'r Tabl Cyfeirio Gwybodaeth, sef lle cofnodir manylion rhannu gwybodaeth a'r rheolyddion cysylltiedig.

2.50 Rhowch enw'r ISP ar frig y dudalen. Dylai hyn fod yn gyson â'r dudalen deitl.

2.51 **Ar frig pob colofn,** labelwch y cyfnewidiadau gwybodaeth sylweddol sy'n cefnogi'r gwasanaeth. Mae 'Atgyfeirio', 'Asesu', 'Dyrannu', 'Ymyrraeth' yn labeli a ddefnyddir yn gyffredin, ond rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r gwasanaeth penodol. Ychwanegwch / tynnwch y colofnau lle bo hynny'n berthnasol. Mae gwefan WASPI yn cynnal fersiwn Excel o'r Tabl Cyfeirio Gwybodaeth, y gellir ei ddefnyddio lle mae mwy na phedwar achos o gyfnewid gwybodaeth. Pan ddefnyddir y copi Excel, dylid dileu'r tabl a dylid ymgorffori copi o'r ddogfen Excel.

2.52 Yn **Rhes 1**, dylech roi disgrifiad bras o'r broses neu'r cam sy'n berthnasol i'r cyfnewid gwybodaeth. Rhaid cofnodi pob achos arwyddocaol o gyfnewid gwybodaeth mewn colofn ar wahân. Sylwer nad pwrpas yr ISP a'r Tabl yw cofnodi pob achos posibl o gyfnewid gwybodaeth, ond yr achosion sylweddol o gyfnewid gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu'r gwasanaeth.

2.53 Mae **Rhes 2** yn ei gwneud yn ofynnol i restru manylion yr wybodaeth bersonol sy'n cael ei chyfnewid ar bob cam. Nid yw'n ofynnol i chi fynd i fanylion 'lefel maes' a gallwch gategoreiddio'r math o wybodaeth a rennir. Fel rheolwyr data, mae pob sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth a rennir yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i chyfyngu i'r hyn sy'n ofynnol i fodloni pwrpas penodol pob cam. Mae'r rhes hon yn nodi'r math o wybodaeth a rennir yn nodweddiadol. Hefyd, cofiwch, er mwyn cydymffurfio â'r egwyddor o 'leihau data', bod yn rhaid cyfyngu'r wybodaeth bersonol a rennir i'r wybodaeth sy'n ofynnol at y diben penodol.

2.54 Yn **Rhes 3**, dylech roi manylion y sefydliadau partner sy'n darparu ac yn derbyn ynghyd â'r timau sydd fel arfer yn gyfrifol am anfon/derbyn y wybodaeth. Fel rheolyddion data, mae pob sefydliad partner yn gyfrifol am sicrhau bod data personol ar gael i'r unigolion y mae angen y data arnynt fel rhan o'u swydd yn unig.

2.55 Yn **Rhes 4**, dylech roi manylion am y rheolyddion a'r amddiffynfeydd sefydliadol a thechnegol penodol sydd ar waith i ddiogelu'r wybodaeth bersonol a rennir. Rhaid i'r rheolyddion hyn fod yn berthnasol yn y sefydliad; hynny yw, ni fydd pob rheolydd yn berthnasol i bob partner. Pwrpas yr adran hon yn y Tabl Cyfeirio Gwybodaeth yw:

- Sicrhau eich bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i ddiogelwch gwybodaeth bersonol.
- Dangos eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data – paragraff 1 erthygl 24 GDPR y DU yn bennaf.
- Rhoi hyder i sefydliadau partner rannu gwybodaeth bersonol.

2.56 Mae **Rhes 5** yn gofyn a ydym yn dibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithlon ar gyfer rhannu. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod gwaharddiad uchel ar gyfer cydsyniad ac mae goblygiadau ychwanegol (e.e. rhaid i unigolion allu tynnu eu caniatâd yn ôl). O'r herwydd, mae'n bwysig nodi ac ystyried cyfnewidfeydd gwybodaeth sy'n dibynnu ar gydsyniad i gadarnhau y dibynnir yn briodol arno.

2.57 Mae **Rhes 6** yn darparu nodiadau ychwanegol i ymarferwyr. Mae llenwi'r rhes hon yn ddewisol.

Atodiad C – Llofnodion Sefydliadau Partner

2.58 Ar ôl sicrhau ISP, byddwch yn derbyn neges gan naill ai tîm canolog WASPI neu'r grŵp sicrhau ansawdd perthnasol.

2.59 Dylai pob sefydliad partner lofnodi'r ISP. Mae derbyn yr ISP trwy ei lofnodi yn elfen allweddol o egwyddor 'atebolrwydd'. Mae awdur yr ISP yn gyfrifol am gasglu llofnodion y sefydliadau partner.

2.60 Dylid rhestru pob sefydliad partner yn Atodiad C y templed, a'r partneriaid fydd yn pennu sut i reoli'r broses lofnodi; hynny yw, a oes angen llofnodi copi caled o'r ISP gyda llaw neu a yw llofnodion electronig yn ddigon.

2.61 Dylai'r llofnodwr fod yn unigolyn sydd ag awdurdod i lofnodi'r ISP ar ran y sefydliad. Gwiriwch gyda'ch adran Llywodraethu Gwybodaeth neu'r Swyddog Diogelu Data os nad ydych chi'n siŵr pwy ddylai lofnodi.

2.62 Ar ôl iddo gael ei lofnodi gan yr holl bartneriaid, hysbyswch dîm WASPI (waspiservice@wales.nhs.uk), i'w galluogi i ddiweddaru'r gofrestr. Ni fydd angen i chi ddarparu copi, bydd hysbysiad yn ddigonol.

Atodiad A – Proses Ddatblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth (ISP)